Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 1 Hydref 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 3 Hydref 2024. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 10 Hydref 2024 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 11 Hydref 2024.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Shelley Childs, Euros Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Amanda Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Gareth Lloyd ac Ann Bowen Morgan.

(10.00am-1.51pm)

69 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Ceris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

70 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

i. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Ceris Jones ar enedigaeth ei mab.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor am godi ei lais yn erbyn y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans a'r cyhoedd yng nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3 Medi 2024.
iii. Diolchwyd i'r cyfieithwyr am eu gwaith yng nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3 Medi 2024, gan mai drwy gyfrwng y Gymraeg y cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfarfod.

71 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 76, mewn materion sy'n ymwneud ag ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

72 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3 Medi 2024 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

73 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd
Dim.

74 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
Dim.

75 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda
Dim.

76 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
1. Cadarnhau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd.
2. Argymell i'r Cyngor Llawn ar 24/10/24 bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd yn cael ei chymeradwyo.
3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Nodi'r strategaeth a'r fframwaith y bydd yn y broses o bennu cyllideb yn parhau i'w dilyn.

77 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol ynghylch Penderfyniad ar Adleoli Llyfrgell Aberaeron gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
1. Cymeradwyo adleoli llyfrgell Aberaeron i Benmorfa.
2. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, fodd bynnag, nid oedd y Cabinet yn cefnogi'r argymhelliad i ohirio'r penderfyniad.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau bod arbedion i'r gyllideb yn cael eu cyflawni a bod gwell gwasanaeth llyfrgell yn cael ei ddarparu'n gynaliadwy ar gyfer ardal Aberaeron.

78 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-24 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
1. Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2023-24.
2. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a chytuno y dylid darparu hyfforddiant pellach ar Gydraddoldeb a Thuedd Ddiarwybod i Gynghorwyr a Staff.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:

- gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) ar gyfer 2023/24, ac
- yn ei gyhoeddi ar wefan allanol y Cyngor erbyn 31/03/25.

79 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Nodi cynnwys y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus, ac i fabwysiadu'r siarter ar ran y Cyngor.
2. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Bydd mabwysiadu'r Siarter hon ac anrhydeddu ei hegwyddorion yn darparu cydweithio a chydraddoldeb gyda fframwaith cenedlaethol i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a'r gymuned yn sgil digwyddiad mawr.

80 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:
Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

81 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Canolfan Lles, Aberteifi gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo safle Pwll Coffa Aberteifi/ Maes Parcio Cae Ffair fel y safle a ffafrir ar gyfer datblygu'r Ganolfan Lles, ar yr amod bod nifer y mannau parcio a gollir yn cael ei leihau gymaint ag a ellir.
2. Cymeradwyo mai adeiladu o'r newydd ar safle Pwll Coffa Aberteifi/ Maes Parcio Cae Ffair yw'r opsiwn a ffafrir.
3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Galluogi'r swyddogion i ddatblygu'r Model Pum Achos ar gyfer Canolfan Lles Aberteifi, fel bod modd gwneud cais i dîm Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Llywodraeth Cymru.

82 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Polisi Dyrannu Cyffredin

PENDERFYNIAD:
Cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Polisi Dyrannu Cyffredinol drafft (Atodiad A).

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

- Galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai.
- Sicrhau bod Polisi Dyrannu Cyffredin y Cyngor yn addas.

83 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Adroddiad Blynyddol Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol 2023-2024 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

84 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS - Chwarter 4 2023/24

Nodwyd yr adroddiad.

85 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2023 - 2024

Nodwyd yr adroddiad.

86 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____